# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Mehefin 2019

Amser: 09.01 - 12.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5498

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Dyfed Alsop, Awdurdod Cyllid Cymru<br>Adam Al-Nuami, Awdurdod Cyllid Cymru<br>Dave Jones, Awdurdod Cyllid Cymru<br>Chris Moore, Welsh Local Goverment Association<br>Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Alan Bermingham, The Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA)<br>Tim Jones, Deloitte |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Samantha Williams (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Awdurdod Refeniw Cymru: Brîff technegol ar drethi

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio breifat ar drethi gan Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Refeniw Cymru; Adam Al-Nuami, Pennaeth Dadansoddi Data, Awdurdod Refeniw Cymru; a Dave Jones, Dadansoddi Data, Awdurdod Cyllid Cymru.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 3.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Papur Gwyn Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus - Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft - 29 Ebrill 2019

### 3.2 PTN2 - Llythyr gan Jim Harra, Ail Ysgrifennydd Parhaol, CThEM - Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Codau treth Cymru - 14 Mai 2019

### 3.3 PTN3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyfraddau Treth Incwm Cymru: Codau treth Cymru - 22 Mai 2019

### 3.4 PTN4 - Ymateb y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit i argymhellion y Pwyllgor Cyllid ynghylch y Bil Deddfwriaeth (Cymru) - 30 Mai 2019

## 4 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a Chris Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin ar yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

## 5 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 6

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tim Jones, Cyfarwyddwr, Cynghorwr Ariannol, Deloitte LLP; ac Alan Bermingham, Rheolwr Polisi, Llywodraethau, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar yr ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft â rhai mân newidiadau.